

Cyngor Cymuned Cerrig-y-Drudion

Cofnodion y Cyfarfod a gynhaliwyd ar y 20fed Ionawr 2105

Presennol -Einion Edwards, Cadeirydd, Hefin Edwards, Alun Jones, John D Jones. Menai Hughes , Prys Ellis, Guto G Jones, Ieuan Jones, Peter Lewis Cyng. Sir, Caerwyn Roberts Clerc.

Ymddiheuriadau – Helen Ellis, Iwan Price.

Cofnodion. Cadarnhawyd y cofnodion a gynhaliwyd ar y 29/11/14.

Datgan diddordeb. Ni chafwyd datganiad o ddiddordeb.

Materion yn Codi :

[1] Yr Heddlu

[a] Nid oedd presenoldeb gan yr heddlu. Mewn neges ganddynt i'r clerch, deallwyd mai damwain ffordd o ganlyniad rhew oedd yr unig ddigwyddiad yn ddiweddar.

[b] Gofynnwyd i'r clerch gysylltu gyda'r asiantaeth briffyrdd ynglŷn ag arwyddion wrth y gyffordd i'r Bala, gan fod amryw o ddamwainiaid digwydd yn y lleoliad.

[1.1] Llwybr Cyhoeddus Rhif 51 [Llwybr Bach]

Eglurodd y clerch bod Cyngor BS Conwy wedi ymweld â'r llwybr a'i fod yn disgwyl dyddiad ar gyfer gwneud y gwaith i osgoi'r darn gwlyb.

[1.2] Trefnu ar gyfer Argyfwng/Ms Heidi Dobbs.

Eglurodd y Cyng. Peter Lewis bod Ms Heidi Dobbs wedi gadael a bod llinell gymorth ar gael.

[1.3] Cae Chwarae Ty'n y Felin/ Gosod Goliau

Nodwyd bod y mater yn parhau.

[1.4] Goleuadau/Maes y Ffynnon

Penderfynwyd ceisio dau olau ychwanegol ar gyfer y ddau ris.

[1.5] Gwasanaeth Iechyd

Eglurodd y clerch nad oedd ateb wedi ei dderbyn gan y Bwrdd Iechyd ynglŷn y cwyn a wnaed gan y Cyngor Cymuned.

[1.6] Cattle Grid Ffordd Brenig ar Gyffordd ger y Sportmans Arms

Y clerch i gysylltu mhellach gyda Chyngor Sir Ddinbych i geisio cael llenwi'r cattle grid, gan nad oedd pwrpas iddo bellach.

Y brif agenda

[1.7] Cais Cynllunio

Gosod Polytwnel. Tir ger Rhyd-y-Groes.

Penderfynwyd nad oedd gwrthwynebiad.

[1.8] Precept

Gan ystyried y costau ychwanegol ar gyfer y llyfrgell, penderfynwyd gosod precept o £8000.00

[1.9] Graenio Ffyrdd

Nodwyd bod gyrrwr modur wedi cael trafferthion yn ddiweddar, gan nad oedd allt Ty'n Rhyd wedi ei graenio yn dilyn rhew. Y clerch i geisio sylwadau'r Cyngor Sir ynglŷn â'r mater.

[2] Gwasanaeth Sgip

Nodwyd yn siomedig fod y sgip ddim ond wedi bod ar gael am ychydig oriau. Y clerch i wneud ymholiadau.

[2.1] Goleuadau Nadolig

Y clerch i geisio amcan bris ar gyfer goleuadau ar y sgwâr yn ystod y Nadolig/Flwyddyn Newydd.

[2.2] Band Eang

Cyfeiriodd y clerch at wybodaeth gan BT yn cynghori bod gwaith yn dechrau ym mis Mehefin i wella cysylltiad band eang yn yr ardal.

[2.3] Derbyniadau

Cyngor BS Conwy grant tuag at gadeiriau/byrddau newydd £1289.63

Precept Cyngor BS Conwy £2166.00.

Cadeirydd _____